# Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru

## Adroddiad Y Llywydd (Mehefin 2021)

*Rhaid dweud fy mod wedi mwynhau cyflawni'r swydd dros y pedair blynedd ddiwethaf a hyderaf fy mod wedi llwyddo, fel yr addewais ar y cychwyn, i godi rhywfaint ar broffil y Cyngor. Mae'r cyfleoedd wedi bod yn amrywiol iawn fel yr ydych wedi gweld wrth ddarllen y Digwyddiaduron ac mae rheini i'w gweld ar ein gwefan o fewn gwefan CYTUN. Rwyn ymhyfrydu yn y ffaith fy mod wedi gallu, bron yn ddieithriad, ymateb yn gadarnhaol i bob gwahoddiad a gaed. Dirprwyodd Helen (ein Hysgrifenyddes gydwybodol) os yr oeddwn yn methu mynychu digwyddiad o bwys. Hoffwn yn y fan hyn gydnabod yn ddiolchgar holl waith Helen a'r cyd weithio hapus fu rhyngom drwy'r cyfnod. Mae sefydlu'r wefan wedi bod yn garreg filltir bwysig er sicrhau gwybodaeth am y Cyngor a'i weithgareddau a dangos amrediad helaeth ein cysylltiadau. Dymunaf yn dda i Simon am ei dymor ef a hyderaf y bydd Duw yn rhwydd iddo gyflawni ei oruchwyliaeth. Mae'r un dyhead gennyf y bydd CERhC yn parhau yn gorff effeithiol i'r dyfodol ac y bydd bendith Duw ar ei holl weithgareddau.*

*Oherwydd Covid 19 bu rhaid, ym Mawrth 2020, newid y trefniadau a hysbyswyd yr aelodau ein bod wedi penderfynu, gan ddilyn patrwm amryw o'n henwadau, i ddileu cyfarfodydd Mai a Tachwedd gan amcanu cynnull cyfarfod yng Ngwanwyn 2021. Yn ymarferol rydym yn Haf 2021 erbyn hyn ac yn dal o dan gyfyngiadau Covid 19 ond mewn sefyllfa llawer mwy hyderus. Fodd bynnag yn ymarferol yr unig ffordd i gynnal cyfarfod yw trwy "zoom".*

*Hoffwn yma ddiolch i bawb am bob cydweithrediad a gefais yn ystod y pedair mlynedd a aeth heibio ac fel y nodais uchod rwy'n hynod werthfawrogol o gefnogaeth arbennig Helen drwy'r cyfnod. Eraill sy wedi bod yn allweddol mewn ffyrdd hollol ymarferol yw Aled, Gethin, Peredur a Sasha o CYTUN ac rwy'n arbennig o diolchgar iddynt am bob cymorth. Rhaid erbyn hyn llongyfarch Peredur ar gael ei ethol yn Aelod o Senedd Cymru. Mae cyfraniad Gethin yn ystod y cyfnod clo yn darparu llu o adroddiadau a diweddariadau ayyb wedi bod yn orchestol ac mae dyled fawr iddo a gwerthfawrogiad haeddiannol gan bawb. Hoffwn gydnabod hefyd barodrwydd Peter Dewi Richards, fel cyn lywydd, i ymateb i bob ymholiad oedd gennyf ac i Martin Spain am ei waith Trysoryddol. Y swyddog arall sy wedi bod yn ddygn iawn ac yn arbennig o gydwybodol mewn cyfnod dyrys a heriol yw Vaughan ein Hysgrifennydd Addysg ac rwyn hynod o ddiolchgar iddo. Yn olaf hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r Dr Noel Davies am fynychu a'n cynrychioli mewn dau ddigwyddiad gan CTBI(drwy zoom): cyfarfod o Arweinwyr Eglwysig ar Hydref 14eg 2020 i drafod BrexIt a Webair ar 28ain Ebrill 2021: yr Eglwys, Cenedligrwydd a Hunaniaeth.* ***(Adroddiadau yn atodedig)***

*Ychydig iawn o ddigwyddiadau arwyddocaol sy wedi bod ers Ebrill 2020 am resymau amlwg.*
*Cytunodd Simon i weithredu ar weithgor Llywodraeth Cymru ar faterion "addoli ac addoldai" gan fy mod yn credu ei fod yn llawer mwy ymwybodol na mi am yr agweddau ymarferol a diolchaf iddo am hyn. Fel arall parheais i gynrychioli yn ôl yr angen a nodaf isod y cyfarfodydd a fynychais o Ionawr 2020 hyd at yn awr.*

**Ion 27** Cynrychiolwyd CERC yn y **Coffâd Cenedlaethol Diwrnod cofio'r Holocost** a gynhaliwyd yn Neuadd y Ddinas gan Helen ein hysgrifenyddes. Diolch iddi unwaith eto am hyn.
**Chwef 27** Mynychu lansiad **Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru** sef Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru. Cynhaliwyd yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru gyda'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, Jane Hutt,AS yn agor y digwyddiad.
**Chwef 29** Mynychu **Gwasanaeth arbennig**, yn Penuel Caerfyrddin, i ddathlu **penblwydd beibl.net** yn ddeunaw oed ac i ddiolch i Arfon Jones a Gwenda Jenkins am eu cyfraniad arbennig i waith 'Gobaith i Gymru' dros gyfnod helaeth o flynyddoedd. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb yn awr i Gyngor Ysgolion Sul ac fe lansiwyd y gwefannau newydd a fydd yn parhau gyda'r gwaith i'r dyfodol.
**Maw 1** Mynychu, trwy wahoddiad Cyngor Dinas Caerdydd, **Gwasanaeth Dinesig Dydd Gŵyl Dewi Yr Arglwydd Faer** yn Eglwys Plwyf Dinesig St Ioan Fedyddiwr. Arweiniwyd y Gwasanaeth gan y Barchedig Ganon Sarah Jones, a thraddodwyd pregeth arbennig o briodol i'r amgylchiad gan yr Archesgob John Davies, gyda minnau yn ymuno ag ef a'r Archesgob Stack i gyflwyno'r Fendith ar y diwedd.
**Maw 4** Mynychu **derbyniad** gyda'r nos **yn y Senedd,** fel rhan o **Frecwast Gweddi Seneddol Gŵyl Ddewi,** oedd yn canolbwyntio ar **400 mlwyddiant Beibl 1620** ac hefyd **100mlwyddiant datgysylltu yr Eglwys yng Nghymru.** Cafwyd cyfraniadau gwerthfawr gan Eluned Morgan,AS; Dafydd Tudur (Llyfrgell Genedlaethol); y grŵp Sound of Wales; Yr Athro Norman Doe a Dai Lloyd, AS. Trefnydd a llywydd y noson oedd Darren Millar,AS.
**Maw 5** Mynychu'r **Brecwast Gweddi Seneddol Gŵyl Ddewi** yn Adeilad Y Pierhead a chyda tua chant o wahoddedigion yno erbyn 7.45 y bore a chafwyd gwledd o fwyd ac anerchiadau. Yr un oedd y thema â'r noson cynt gydag arddangosfa o'r Beiblau gan Dafydd Tudur. Y Cyfranwyr oedd Y Parchedicaf John Davies; Rebecca Evans,AS; Simon Hart,AS; Huw ac Elizabeth Priday a'r grŵp Sound of Wales. Roedd y cyfan dan arweiniad Darren Millar,AS.
**Maw 5** Mynychu'r **Gwasanaeth i ddathlu Pedwarcanmlwyddiant Beibl 1620** yng Nghapel Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd. Cynrychiolwyd pob un o'r prif enwadau Cristnogol yn y Gwasanaeth ynghyd â chynrychiolwyr o

Cymorth Cristnogol, Cymdeithas y Beibl a Chyngor Ysgolion Sul. Roeddwn i yn un o'r rhai yn cyflwyno gweddi a llywyddwyd y cyfan gan Y Parch Denzil John. Cafwyd Pregeth rymus oedd yn rhoi sialens fyw i bob un oedd yn bresennol yn y gynulleidfa gan Arfon Jones.
**Maw 9** Mynychu'r cyfarfod yn y Senedd i gloi gweithgareddau **"Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914 -1918"** Diolchodd Prif Weinidog Cymru i bawb fu'n rhan o ymgyrch Llywodraeth Cymru ar Ganmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf ac yn arbennig y Cynghorwyr Arbennig Yr Athro Syr Deian Hopkin a Linda Thomas.

Canslwyd Cyfarfod **Cyngor Rhyng Ffydd Cymru** ar Fawrth 16 ac hefyd **Lansiad Pecyn Cymorth Twristiaeth newydd ar gyfer Addoldai Anghydffurfiol** ar Fawrth 19.

**Ebrill 1** Cymerais ran mewn **dau gyfarfod** "Zoom" a **drefnwyd gan CTBI** (Eglwysi ynghyd ym Mhrydain). Yng nghyfarfod y bore, a fynychwyd gan 27 "Uwch Arweinwyr Eglwysig", bu i ni i gyd gyfrannu am ein sefyllfaoedd amrywiol yn y pedair gwlad. Cytunwyd ar lythyr i'w ddosbarthu ar gyfer y Pasg. Yn y prynhawn, cafodd 24 o "Uwch Swyddogion" drafodaeth bellach ac fe gwblhawyd y llythyr. Yr hyn a oedd fwyaf diddorol oedd pa mor gytûn yr oeddem ynglŷn â'n safiadau mewn perthynas â Covid19. Cytunwyd ar gyfarfodydd dilynol ar gyfer Mai 7fed. Yr wyf yn siŵr eich bod i gyd wedi gweld y llythyr wedi'i lofnodi ar wefannau neu mewn cyhoeddiadau. Fe'i dosbarthwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg yng Nghymru. (**Atodir Copiau yma)**
**Ebrill 29** Mynychu **Fforwm Cymunedau Ffydd Llywodraeth Cymru** trwy gyfrwng "Zoom". Roedd 24 yn bresennol – 16 yn cynrychioli'r grwpiau ffydd gyda 7 o swyddogion o Lywodraeth Cymru gyda Jane Hutt y Dirprwy Weinidog yn cadeirio y tro hwn. Roedd 5 eitem ar yr agenda – 4 yn deillio o Covid 19. Yr oedd yn ddiddorol ac yn braf canfod ein bod i gyd yn gytûn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd o ran addoldai a gweithgareddau cysylltiedig, tra bo'r sefyllfa ddigynsail bresennol yn parhau. Y pumed mater oedd yr hysbysiad ynghylch ymgynghoriad ar addysg a gaiff ei lansio ar Fai'r 5ed a fydd yn cynnwys cynigion i newid deddfwriaeth mewn perthynas ag Addysg Grefyddol a CYSAGau ac ati.
**Mai 7** Cymerais ran eto mewn **dau gyfarfod** "Zoom" a **drefnwyd gan CTBI** (Eglwysi ynghyd ym Mhrydain). Yng nghyfarfod y bore, a fynychwyd gan 26 "Uwch Arweinwyr Eglwysig", bu i ni i gyd gyfrannu am ein sefyllfaoedd amrywiol yn y pedair gwlad a'r cyswllt gyda'r llywodraethau a thrafodwyd oblygiadau ymarferol Covid19 ar waith yr eglwysi.
**Mehefin 3** Mynychu **Fforwm Cymunedau Ffydd Llywodraeth Cymru** trwy gyfrwng "Teams". Prif faterion: Agor Addoldai; Deddf Addysg; Priodasau ac Angladdau; Sul Y Cofio; Cyfiawnder Hiliol; Penalun.
**Mehefin 26** Mynychu **Fforwm Cymunedau Ffydd Llywodraeth Cymru** trwy gyfrwng "Teams" Prif faterion: Addoldai; Deddf Addysg; Penalun; Srebrenica; Profi ac Olrhain; Hawliau Dynol.
**Awst 4** Cynrychiolwyd CERC yng **Ngwasanaeth Diwrnod VJ Day** a deledwyd o Gadeirlan Llandâf gan Helen.
**Hydref 1** Mynychu **Fforwm Cymunedau Ffydd Llywodraeth Cymru** trwy gyfrwng "Teams". Prif faterion: Deddf Addysg; Agor Addoldai; Cyfiawnder Hiliol.
**Tachwedd 8** Cynrychiolwyd CERC gan Helen **yng Ngwasanaeth Cenedlaethol Y Cofio** gynhaliwyd yn y Gofeb Genedlaethol ym Mharc Cathays a chyflwynodd ddarlleniad o'r Ysgrythur.
**Rhagfyr 1** Gyrrais Gyfarchion Nadolig 2020 at aelodau Y Cyngor ac i'r "Pedair Tudalen" oedd yn diweddaru y sefyllfa yn gyffredinol.
**Ionawr 20** Mynychu **Fforwm Cymunedau Ffydd Llywodraeth Cymru** trwy gyfrwng "Teams". Prif faterion: Diweddariad Grŵp Seremonïau ; Rhaglen frechu – pob ffydd yn ei gefnogi; Aelodaeth y Fforwm – ychwanegu Eglwysi arweinir gan pobl Ddu.
**Chwefror 24** Mynychu **,** trwy gyfrwng "zoom", **Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd** Cafwyd cyflwyniad gan Claire Walker, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Eglwysi Cenedlaethol ar yr Adroddiad "House of God" Gwerth Economadd a Chymdeithasol Eglwysi'r DU. Cyfeiriodd bod dros £500mil o grantiau wedi eu rhoi i eglwysi Cymru yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Manylion ar we fan National Churches Trust.
**Mawrth 3** Mynychu **Fforwm Cymunedau Ffydd Llywodraeth Cymru** trwy gyfrwng "Teams". Prif faterion: Cyfrifiad 2021; Diweddariad ar y pandemig; Rhaglen frechu; Diweddariad Grŵp Seremonïau.
**Ebrill 2** Cael fy ngwahodd gan Olygyddion ***Cenn@d*** i gyfarch aelodau'r Eglwysi Rhyddion yng Nghymru ar drothwy'r Pasg. Ysgrifennais erthygl oedd yn gorffen gyda'r paragraff a ganlyn: "*Mae cyfle gwych i ni ddod at ein gilydd fel enwadau i gydaddoli, i ddefnyddio ein hadnoddau dynol a'n hadeiladau yn llawer mwy effeithiol ar y cyd. Beth am werthu pob capel ond un mewn gofalaeth/cylch a chael hwnnw ar gyfer yr ardal, a newid y gweddill yn fflatiau/tai ar gyfer eu gosod/gwerthu i bobl ifanc y cylch? Mae llawer o bosibiliadau. Ewch ati yn llawn gobaith i feddwl ac i drefnu.*"
Ni allaf feddwl am eiriau gwell ychwaith i orffen fy adroddiad olaf fel Llywydd gan hyderu y bydd yn dwyn ffrwyth. Hoffwn ddymuno pob bendith ar waith Y Cyngor i'r dyfodol gan fynegi fy niolch diffuant am y fraint a roddwyd i mi i weithredu fel Llywydd.

Rheinallt A Thomas,
Llywydd
e bost: rheinallt@talktalk.net